


Adran Gwleidyddiaeth Rryngwladol

Astudiaethau israddedig mewn

# Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Cyrsiau gradd eraill a modiwlau poblogaidd | t.14 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.16 |
| Cwestiynau cyffredin | t.17 |
| Y Cynllun Lleoliadau Seneddol | t.18 |
| Efelychiadau gemau argyfwng | t.20 |
| Cymdeithasau a digwyddiadau myfyrwyr | t.22 |
| Profiadau cyn-fyfyrwyr | t.23 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.24 |
| Sut i wneud cais | t.25 |





**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Hydref 2023), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso

Croeso i adran Wleidyddiaeth Ryngwladol cynta'r byd.

Mae astudio gwleidyddiaeth ryngwladol yn gwbl angenrheidiol os am fagu dealltwriaeth drylwyr o natur ein byd cyfnewidiol. Yn wir, a ninnau bellach yn byw trwy gyfnod a nodweddir gan newid gwleidyddol arwyddocaol ar sawl lefel mae'r pwnc yn un sy'n meddu ar berthnasedd eithriadol.

Yng Nghymru, mae'r trafod ynglŷn â natur y setliad datganoli a'i oblygiadau ar gyfer polisi, gweinyddiaeth gyhoeddus ac, yn gynyddol, lefelau trethiant, yn debygol o barhau dros y blynyddoedd nesaf. Ar yr un pryd, mae'n debygol y bydd y trafodaethau hyn yn digwydd fwyfwy yng nghyd-destun newidiadau ehangach i natur gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig, natur cyfundrefn economaidd y wladwriaeth, a seiliau ei chyfansoddiad tiriogaethol.

Ar y llwyfan rhyngwladol, mae galw am ymateb i ystod o heriau gwleidyddol byd-eang, rhai ohonynt yn gyfarwydd ac eraill yn newydd. Er enghraifft, mae angen mynd i'r afael â newid hinsawdd, ymdrin ag ymlediad arfau niwclear ac ymateb mewn modd teg i symudiadau ym mhoblogaeth y byd. O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n amserol i ddewis dilyn cwrs gradd mewn gwleidyddiaeth neu gysylltiadau rhyngwladol.

Mae ein hamgylchedd dysgu yn croesawu staff a myfyrwyr o bob cwr o'r byd, gan greu cymuned ryngweithiol fywiog sy'n gwneud cyfraniad hanfodol i ymchwil arloesol yr adran sy'n sail i ddatblygiadau newydd yn y ddisgyblaeth. Rydym yn enwog am ddarparu rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil, ac mae'r adran yn ar y brig yn y Deyrnas Unedig am fodlonrwydd yr addysgu ar y cwrs ym mhwnc Gwleidyddiaeth (Canllaw Prifysgolion Da y Guardian 2023). Mae Prifysgol Aberystwyth ar y brig yng Nghymru ac yn ail yn y Deyrnas Unedig am Brofiad Myfyrwyr ac ar y brig yng Nghymru ac yn 3ydd yn y Deyrnas Unedig am Ansawdd y Dysgu (Canllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times 2024).

Mae ein cynlluniau gradd amrywiol yn darparu addysg ardderchog ac yn cynnig sail gadarn ar gyfer datblygu ystod o yrfaoedd llwyddiannus. Ymhlith y llwybrau mwyaf poblogaidd i'n graddedigion mae'r gwasanaeth sifil, sefydliadau rhyngwladol, mudiadau anllywodraethol, y pleidiau gwleidyddol neu waith ymchwil a lobïo. Mae eraill yn mynd ati i ddatblygu gyrfaoedd yn y cyfryngau, byd y gyfraith neu fyd addysg.

Gobeithiwn y bydd y llyfryn hwn yn eich cynorthwyo i benderfynu ar y cwrs sy'n iawn i chi. Os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth neu gyngor mae croeso i chi gysylltu â ni, dros y ffôn neu drwy e-bost. Ceir mwy o wybodaeth hefyd ar ein gwefan:

**www.aber.ac.uk/cy/interpol**

**Patrick Finney**
**Pennaeth Adran**







# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl

| | |
|---|---|
| Cysylltiadau Rhyngwladol | t.3 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Byd-eang | t.4 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol | t.5 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid Hinsawdd | t.6 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Cyfryngau | t.8 |
| Gwleidyddiaeth | t.9 |
| Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol | t.10 |
| Strategaeth, Cudd-wybodaeth a Diogelwch | t.12 |
| Graddau Cyfun | t.13 |



# Cysylltiadau Rhyngwladol

78% ar gael drwy'r Gymraeg

BA (Anrh) | 142L | 3 blynedd

Mae gwleidyddiaeth ryngwladol yn cychwyn ar gyfnod cythryblus a diddorol. Mae'r drefn fyd-eang yn cael ei hail-lunio wrth i achosion newydd ymddangos, megis newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â gweithredwyr newydd, yn enwedig o'r De Byd-eang, yn herio'r strwythurau pŵer sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Wrth astudio Cysylltiadau Rhyngwladol yn Aberystwyth, byddwch yn cymryd rhan mewn dadleuon am brif bynciau a heriau mwyaf arwyddocaol gwleidyddiaeth ryngwladol yn yr 21ain ganrif. Byddwch yn astudio'r cysyniadau, yr arferion a'r hanes sy'n ganolog i wleidyddiaeth ryngwladol, ac yn edrych ar sut mae'r holl ffactorau hyn yn cael eu trawsnewid yn radical.

Byddwch yn elwa o:

- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, ee cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Y Tu Ôl i'r Penawdau.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- International Politics and the Nuclear Age
- Justice Order and Human Rights
- Economic Diplomacy and Leadership
- Fear, Cooperation and Trust in World Politics
- Contemporary Latin America
- The Middle East in the 20th Century
- The Making of National Security Policy
- The European Union: Politics, Policies, Problems
- Trade Wars and the Liberal Order
- Women and Global Development
- Climate Change and International Politics in the Anthropocene
- Race in Global Politics
- Capitalism and International Politics.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **642L** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **242L** | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| **F42L** | Blwyddyn sylfaen integredig. |

# Cysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Byd-eang

80% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | 13LL | 3 blynedd

Yn ystod y cwrs gradd hwn, byddwch yn archwilio sut mae cysylltiadau rhyngwladol yn edrych o safbwyntiau sydd y tu hwnt i'r byd datblygedig. Bydd y cwrs yn herio naratifau Ewro-ganolog cysylltiadau rhyngwladol, gan ystyried y rhyng-gysylltiadau rhwng y gwladwriaethau datblygedig a'r rhai sy'n datblygu, ymchwilio i faterion a lleisiau sy'n cael llai o sylw, ac ymchwilio i'r grymoedd byd-eang sy'n tyfu yn America Ladin, De Asia a'r Dwyrain Canol.

Byddwch yn astudio themâu allweddol fel gwladychiaeth, anghydraddoldeb, datblygiad, rhywedd, hunaniaeth, economi wleidyddol, diwylliant, hil, crefydd, gwrthsafiad a mudiadau cymdeithasol. Trwy gydol y cwrs, byddwch yn astudio'r berthynas rhwng y grymoedd o ystod o wahanol bersbectifau an-Ewropeaidd.

Byddwch yn elwa o:

- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, ee cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Globaleiddio a Datblygiad Byd-eang.

**Yr ail flwyddyn:**
- International Politics and Global Development.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- Global Inequality and World Politics
- The BRICS in World Politics
- Women and Global Development
- Religion and Politics in the Middle East
- Global Politics and the Refugee Regime.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | H2VL | 3 blynedd

Ar y cwrs gradd Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol byddwch yn astudio sut y mae rhyfela wedi datblygu ers cyfnod Napoleon, gan adlewyrchu newidiadau cymdeithasol a thechnolegol mawr. Byddwch yn ystyried sut a pham y mae natur rhyfel wedi newid dros y canrifoedd a hefyd sut y mae datblygiadau technolegol mawr wedi cael dylanwad, o dechnoleg ager i dechnoleg niwclear neu raglenni cyfrifiadurol cyfoes.

Bydd y cwrs gradd Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol yn rhoi ichi'r cyfle i gyfrannu at drafodaethau allweddol ynglŷn â rhyfel a'i effaith ar bobl gyffredin, yn ogystal â'r amrywiaeth o ffyrdd y mae ysgolheigion yn dehongli hanes milwrol. Byddwch yn dysgu sut i ddadansoddi byddinoedd a gweithrediadau milwrol o safbwyntiau amrywiol, ac yn adfyfyrio ar berthynas rhyfeloedd a byddinoedd â sefydliadau gwleidyddol, materion economaidd ac ideolegau fel cenedlaetholdeb.

Byddwch yn elwa o:

- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, ee cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- The Making of the Modern World: War, Peace and Revolution since 1789.

**Yr ail flwyddyn:**
- Warfare after Waterloo: Military History 1815-1918.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- Arab-Israeli Wars
- A Century of Conflict: Global Warfare from 1918-2018
- Military History Campaign Study
- War Crimes
- The British Army's Image in Battle, from the Crimea to the Present
- The Second World War in Europe.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40% gwaith cwrs a 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**F2VL** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid Hinsawdd

76% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | 27LF | 3 blynedd

Newid hinsawdd yw'r her fwyaf sylweddol a chymhleth sy'n wynebu ein systemau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. Mae gwleidyddiaeth ryngwladol yn allweddol i ddeall y cymhlethdod hwn ac i wynebu'r argyfwng byd-eang.

Trwy astudio'r cynllun gradd hwn byddwch yn cael cyflwyniad amlddisgyblaethol i wleidyddiaeth newid hinsawdd, gan ystyried y ffyrdd y mae gwladwriaethau a chymdeithasau yn ymrafael i reoli adnoddau a systemau ecolegol y ddaear. Cewch hefyd gyfle, trwy gyfrwng efelychiadau, i astudio'r prosesau trafod a phenderfynu cymhleth sy'n rhan o lywodraethiant rhyngwladol newid hinsawdd heddiw.

Byddwch yn elwa o:

- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, ee cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Globaleiddio a Datblygiad Byd-eang
- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- The Science of Climate.

**Yr ail flwyddyn:**

- Llywodraethiant Newid Hinsawdd: Modiwl Efelychiad
- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- Climate Change and International Politics in the Anthropocene
- People, Progress, Environment: Theories and Histories of Environmental Politics
- Refugee Simulation
- International Politics and Global Development
- Global Inequality and World Politics
- Contemporary Security: Theories and Threats.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.





# Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Cyfryngau

99% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | 3P2L | 3 blynedd

Rydym yn byw mewn cyfnod o newid gwleidyddol eithriadol, a hynny ar sawl lefel. Yng Nghymru, parhau mae'r trafod ynglŷn a natur y setliad datganoli a'i oblygiadau ar gyfer polisi, gweinyddiaeth gyhoeddus a lefelau trethiant. Ar yr un pryd, mae gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig yn newid bron yn ddyddiol. Ar y llwyfan rhyngwladol, mae galw am ymateb i ystod o heriau gwleidyddol byd-eang megis newid hinsawdd a thwf grymoedd newydd.

Bydd y cwrs gradd arloesol hwn yn caniatáu i fyfyrwyr ddadansoddi datblygiadau gwleidyddol cyfoes tra hefyd yn magu dealltwriaeth o faes allweddol y cyfryngau.

Byddwch yn elwa o:

- datblygu sgiliau dadansoddi a chyfathrebu arbenigol a fydd yn caniatáu ichi drin a thrafod pynciau gwleidyddol a chymdeithasol cyfoes mewn modd hyderus, yn Gymraeg a Saesneg
- meithrin dealltwriaeth o ddamcaniaethau a chysyniadau gwleidyddol, cymdeithasegol, seicolegol a ieithyddol allweddol
- manteisio ar adnoddau astudio heb eu hail, gan gynnwys yr adnoddau technegol mwyaf diweddar ym maes y cyfryngau
- elwa o brofiad tîm helaeth o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg sydd oll yn arbenigwyr yn eu meysydd ymchwil a dysgu.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, ee cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Tu ôl i'r Penawdau
- Astudio Ffilm a Chyfryngau
- Gweithdy Cynhyrchu Cyfryngau
- Prosiect Cynhyrchu Cyfryngau.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau
- Genrau Teledu neu Iaith a Chyfryngau
- Dogfen Greadigol.

**Y flwyddyn olaf:**

- Iaith a Chyfryngau neu Genrau Teledu.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- Damcaniaethau Gwleidyddiaeth
- Cenedlaetholdeb mewn Theori a Realiti
- Gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig Heddiw: Undeb dan Straen?
- Dulliau Ymchwil a Thraethawd Estynedig
- Datblygu Gyrfa a Lleoliad Gwaith
- Sgiliau Sgriptio
- Ffilm a Chyfryngau Cymru
- Ymarfer Creadigol Annibynnol
- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Amlddiwylliannedd mewn Polisi ac Ymarfer
- Ysgrifennu Sgript.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Gwleidyddiaeth

86% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | L203 | 3 blynedd

Bydd astudio Gwleidyddiaeth yn Aberystwyth yn datblygu eich dealltwriaeth o gyfundrefnau a systemau gwleidyddol, actorion gwleidyddol a llywodraethau, a phrosesau i lunio penderfyniadau gwleidyddol. Cewch hefyd y cyfle i ddysgu am syniadau gwleidyddol allweddol a sut mae'r rhain yn cael eu herio a'u cwestiynu mewn gwleidyddiaeth gyfoes: grym, democratiaeth, rhyddid, anghydraddoldeb, hawliau, dinasyddiaeth, cynrychiolaeth a chyfreithlondeb.

Bydd modiwlau'n trafod dadleuon gwleidyddol cyfoes megis dyfodol y DU wedi Brexit, heriau mudo modern, twf cenedlaetholdeb poblog a dyfodol democratiaeth. Ar yr un pryd, mae cryn bwyslais ar astudio gwleidyddiaeth o bersbectif cymharol. Bydd cyfle ichi ddatblygu eich dealltwriaeth o wleidyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, Ewrop, Gogledd America, America Ladin, Rwsia ac Asia.

Byddwch yn elwa o:

- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, ee cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Gwleidyddiaeth yn yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**Yr ail flwyddyn:**

- Pobl a Grym: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Gender and Sexuality in the Americas
- Politics in Russia
- The EU: Politics, Policies, Problems
- Amlddiwylliannedd mewn Polisi ac Ymarfer
- Damcaniaeth Wleidyddol.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

# Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

78% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | L248 | 3 blynedd

Ar y cwrs hwn, byddwch yn archwilio tirwedd wleidyddol y gorffennol a'r presennol, gan ddysgu am y cysyniadau allweddol megis pŵer, democratiaeth, rhyddid, anghydraddoldeb, hawliau, dinasyddiaeth, cynrychiolaeth a chyfreithlondeb, a sut y caiff rhain eu herio yn y byd gwleidyddol cyfoes.

Bydd y radd mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol yn Aberystwyth yn ymchwilio i wahanol systemau gwleidyddol a sefydliadau byd-eang. Byddwch yn dysgu am y grymoedd sy'n gyrru newidiadau gwleidyddol, economaidd a diwylliannol-gymdeithasol ledled y byd, ac yn archwilio'r heriau sy'n wynebu'r system ryngwladol megis globaleiddio, diogelwch rhyngwladol, yr amgylchedd, anghydraddoldeb, iechyd byd-eang, gwrthdaro a rhyfela.

Drwy gydol y cwrs, byddwch yn trafod gwahanol ddadleuon, damcaniaethau ac esboniadau amgen ac yn datblygu sgiliau dadansoddol sydd mor bwysig yn y farchnad waith.

Byddwch yn elwa o:

- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, ee cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol I: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Gwleidyddiaeth yn yr Unfed Ganrif ar Hugain
- Y Tu Ôl i'r Penawdau.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau
- Pobl a Grym: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- War, Strategy and Intelligence
- The Making of the Modern World: War, Peace and Revolution since 1789
- Trade Wars and the Liberal Order
- Contemporary Latin America
- Justice, Order, Human Rights
- The Second World War in Europe
- The EU: Politics, Policies, Problems.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.





# Strategaeth, Cudd-wybodaeth a Diogelwch

80% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | L252 | 3 blynedd

Mewn byd sy'n gynyddol ryng-gysylltiedig a chymhleth, mae actorion rhyngwladol yn wynebu ystod o heriau diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys gwrthdaro o fewn a rhwng gwladwriaethau, terfysgaeth fyd-eang, bygythiadau seiber, ymlediad arfau niwclear, pandemigau iechyd byd-eang, troseddu traws-wladol, dadleoli poblogaeth, trychinebau naturiol a newid hinsawdd. Bydd y radd hon yn ymwneud â syniadau o feysydd astudiaethau strategol, cudd-wybodaeth a diogelwch er mwyn deall a dadansoddi'r heriau hyn o wahanol bersbectifau, ac ymchwilio i ymatebion dyfeisgar a holistaidd.

Byddwch yn ymchwilio i gymhlethdod casglu ac asesu cudd-wybodaeth cyn ei rhannu ymysg llunwyr penderfyniadau. Byddwch yn ystyried sut mae'r broses hon a'i chynnyrch yn dylanwadu ar ymatebion i fygythiadau diogelwch. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i werthuso pwysigrwydd gwybodaeth, cyfrinachedd a gwyliadwraeth ('surveillance') wrth ystyried y goblygiadau moesegol a deddfwriaethol sy'n deillio o ymwneud â gweithgareddau cudd-wybodaeth drwy astudiaethau achos hanesyddol.

Byddwch yn elwa o:

- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau, ac mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith ym meysydd: datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Trydydd Sector; y Gwasanaeth Sifil; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- War Strategy and Intelligence.

**Yr ail flwyddyn:**
- Strategy, Intelligence and Security in International Politics.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- NATO: from Cold War to Hybrid War
- The Making of National Security Policy
- European Security in the 21st Century
- Propaganda and Secret Intelligence
- Russian Intelligence from Lenin to Putin
- Terrorism and Counter-Terrorism.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Cysylltiadau Rhyngwladol | Almaeneg | RL22 |
| | Drama a Theatr | LW24 |
| | Economeg | LL12 |
| | Ffrangeg | LRF1 |
| | Hanes | LVF1 |
| | Sbaeneg | LRF4 |
| | Y Gyfraith | ML12 |
| Gwleidyddiaeth | Economeg | LL13 |



# Cyrsiau gradd eraill

Yn ogystal â'n rhaglenni anrhydedd sengl, rydym yn cynnig cyfuniadau prif bwnc/is-bwnc a graddau anrhydedd cyfun gyda llawer o bynciau yn y celfyddydau a'r gwyddorau cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth am yr amrywiol raddau sydd ar gael, ewch i **www.aber.ac.uk/cy/interpol**

## Graddau cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Cysylltiadau Rhyngwladol** | Almaeneg | RL22 |
| | Drama a Theatr | LW24 |
| | Economeg | LL12 |
| | Ffrangeg | LRF1 |
| | Hanes | LVF1 |
| | Sbaeneg | LRF4 |
| | Y Gyfraith | ML12 |
| **Gwleidyddiaeth** | Economeg | LL13 |

## Modiwlau poblogaidd

**Trwy ddilyn un o gynlluniau gradd yr Adran mae modd manteisio ar y cyfle i astudio ystod eang o fodiwlau cyfoes. Dyma flas ar rai o'n modiwlau poblogaidd.**

### Gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig Heddiw: Undeb Dan Straen?

Nod y modiwl hwn yw darparu cyflwyniad cynhwysfawr i wleidyddiaeth gyfoes y Deyrnas Unedig (DU). Bydd y deunydd a drafodir yn cynnwys: esblygiad hanesyddol gwladwriaeth y DU, trefniadau llywodraethu cyfredol y DU, a thrafodaethau cyfoes ynglŷn â dinasyddiaeth a hunaniaeth, gan gynnwys perthnasedd cyfoes y syniad o Brydeindod.

### Cenedlaetholdeb mewn Theori a Realiti

Prif amcan y modiwl hwn yw trafod rhai o'r prif ddamcaniaethau sy'n ymwneud â gwreiddiau, datblygiad a rôl y 'genedl' mewn gwleidyddiaeth gyfoes. Ystyrir y ffurfiau gwahanol ar genedlaetholdeb sydd wedi datblygu mewn gwahanol rannau o'r byd, ac edrychir ar y mathau o alwadau gwleidyddol a wneir yn enw'r genedl.

### America Ladin Heddiw

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth yr Ariannin ac yn astudio proffiadau'r wlad o gyfundrefnau awdurdodaidd a democrataidd, ynghyd â themâu allweddol eraill.

### Amlddiwylliannedd mewn Polisi ac Ymarfer

Mae'r modiwl hwn yn ystyried sut y mae ystod o wladwriaethau gwahanol wedi ymateb i'r ffaith fod cymdeithasau cyfoes bellach wedi'u nodweddu gan amrywiaeth ethnig, ieithyddol a chrefyddol eithriadol. Rhyddir sylw i ystod o bynciau trafod cyfoes, gan gynnwys hawliau pobloedd brodorol, sefyllfa cymunedau o fewnfudwyr a galwadau lleiafrifoedd crefyddol.





# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Fel Adran, rydym wedi buddsoddi'n helaeth dros y blynddoedd yn ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg arloesol, ac wedi cael ein cydnabod gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel prif ddarparwr y pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod modd i fyfyrwyr astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ymarferol, golyga hyn bod modd astudio pedwar allan o'r chwe modiwl y disgwylir i fyfyrwyr eu hastudio bob blwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn sicrhau bod pob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn tiwtor personol a thiwtor traethawd hir sy'n medru siarad yr iaith.

Rydym yn cynnig dau gwrs gradd sy'n rhai cyfrwng Cymaeg yn benodol, sef Cysylltiadau Rhyngwladol 142L a Gwleidyddiaeth L201, ond mae'n bosib astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg ar unrhyw un o'n cynlluniau gradd eraill.

Yn fyfyriwr gyda ni, bydd croeso i chi ddewis fersiynau cyfrwng Cymraeg y modiwlau bob tro, os mai dyna yw eich dymuniad. Ond, mae hefyd modd bod yn hyblyg ac amrywio cyfrwng yr astudio o fodiwl i fodiwl. Yn ogystal, fe geir hyblygrwydd o ran yr iaith y dylid ei defnyddio wrth gwblhau gwaith a asesir. Cewch ddewis cyflwyno eich gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, beth bynnag fo cyfrwng dysgu'r modiwl. Mae'r trefniadau dysgu hyn yn golygu bod ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn un sy'n agored i chi beth bynnag yw eich cefndir ieithyddol.

Caiff ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chynnal gan dîm o ddarlithwyr sy'n meddu ar arbenigeddau ymchwil ac addysgu amrywiol.

- Damcaniaethau cenedlaetholdeb ac integreiddio Ewropeaidd yw meysydd arbenigedd **Dr Anwen Elias**. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn cenedlaetholdeb lleiafrifol, yn enwedig yn Sbaen, Ffrainc a'r Deyrnas Unedig.
- Mudo rhyngwladol yw maes arbenigedd **Dr Catrin Wyn Edwards**. Mae ei diddordebau dysgu ac ymchwil yn cynnwys aml-ddiwylliannedd, dinasyddiaeth, mudo, gyda ffocws penodol ar genhedloedd neu ranbarthau is-wladwriaethol megis Cymru, Catalwnia, Quebec a New Brunswick.
- Mae diddordebau dysgu ac ymchwil **Dr Huw Lewis** yn cynnwys: damcaniaeth wleidyddol normadol, dadleuon ynglŷn ag aml-ddiwylliannedd a chenedlaetholdeb, gwleidyddiaeth iaith a gwleidyddiaeth gyfoes y Deyrnas Unedig.
- Arbenigwraig ar wleidyddiaeth America Ladin yw **Dr Lucy Taylor**. Mae ei diddordebau dysgu ac ymchwil yn cynnwys materion rhywedd a hil, cyfranogiad a chynrychiolaeth, a hefyd datblygiad hanesyddol dinasyddiaeth a'r wladwriaeth yn America Ladin.
- Mae diddordebau dysgu ac ymchwil **Dr Elin Royles** yn cynnwys gwleidyddiaeth Cymru, cymdeithas sifil a chyfranogaeth, datblygiadau yn y Deyrnas Unedig wedi datganoli, a Chymru yng nghyd-destun Ewrop ranbarthol.





# Cwestiynau cyffredin

### Pa fath o fodiwlau sy'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg?

Mae'r modiwlau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg o flwyddyn i flwyddyn yn rhai amrywiol sy'n cyffwrdd ar ystod o feysydd gwahanol, gan gynnwys: damcaniaethau gwleidyddol allweddol megis Rhyddfrydiaeth, Marcsiaeth, Cenedlaetholdeb a Ffeministiaeth; natur systemau gwleidyddol a rôl etholiadau, pleidiau a mudiadau protest; sialensau byd-eang cyfoes megis newid hindsawdd, mudo rhyngwladol neu ymlediad arfau niwclear; natur rhyfela a'r defnydd o gudd-wybodaeth mewn gwleidyddiaeth ryngwladol a hefyd gwleidyddiaeth gyfoes Cymru a'r Deyrnas Unedig ac oblygiadau prosesau fel datganoli a Brexit.

### Beth yw maint y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg?

Un o fanteision amlwg astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yw bod maint y dosbarthiadau yn llai ac felly mae modd dod i adnabod y staff dysgu yn dda. Mae'r union nifer sy'n astudio modiwlau gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio (fel yn achos y Saesneg), ond y maint arferol ar gyfer ein modiwlau anrhydedd yw tua 8-10 myfyriwr.

### Faint o staff sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?

Erbyn hyn mae pump o ddarlithwyr amser llawn yn cyfrannu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yr Adran (gweler tudalen 18). Mae arbenigeddau ymchwil ac addysgu'r unigolion hyn yn amrywio ac o ganlyniad mae modd cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg helaeth sy'n cyffwrdd ar ystod o bynciau a themâu gwleidyddol pwysig.

### Ai dim ond y myfyrwyr sydd wedi dewis cwrs gradd gyda theitl Cymraeg sy'n gallu dewis y modiwlau cyfrwng Cymraeg?

Na, mae modd i unrhyw fyfyriwr yn yr Adran ddewis astudio ein modiwlau cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r gallu i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddibynnol ar ba un o'n cynlluniau gradd y byddwch chi wedi ei ddewis.

### Os yn dewis astudio modiwl cyfrwng Cymraeg, a fydd rhaid cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg hefyd?

Na fydd. Mae gennym drefn hyblyg sy'n caniatáu i fyfyrwyr gyflwyno gwaith i'w asesu trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg. Os yn astudio modiwl cyfrwng Cymraeg byddwch yn gallu dewis cyflwyno eich gwaith yn Saesneg os mai dyna yw eich dymuniad. Yn yr un modd, os yn dewis astudio modiwl cyfrwng Saesneg, cewch ddewis cyflwyno eich gwaith yn Gymraeg. Ym mhob achos byddwn yn sicrhau y caiff y gwaith ei farcio gan aelod staff cymwys sy'n gallu darllen y copi gwreiddiol yn hytrach na dibynnu ar gyfieithiad.

### A oes unrhyw gymorth ariannol penodol ar gael i'r sawl sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg?

Oes. Yn y lle cyntaf mae pob un o gyrsiau gradd yr Adran yn gymwys ar gyfer ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ceir dau math gwahanol o ysgoloriaeth: mae'r Prif Ysgoloriaethau yn agored i fyfyrwyr sy'n ymrwymo i astudio o leiaf 80 credyd (hynny yw, 4 modiwl) trwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn ac mae'r Ysgoloriaethau Cymhelliant yn agored i fyfyrwyr sy'n ymrwymo i astudio o leiaf 40 credyd (hynny yw, 2 fodiwl) cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r ysgoloriaethau hyn ewch i wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ogystal, mae cynllun Ysgoloriaethau Astudio Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Aberystwyth yn golygu bod myfyrwyr sy'n astudio o leiaf un modiwl cyfrwng Cymraeg y flwyddyn yn derbyn £150, tra bo'r sawl sy'n astudio dau fodiwl cyfrwng Cymraeg neu fwy yn derbyn £250.

# Y Cynllun Lleoliadau Seneddol

**Mae ein cynllun lleoliadau seneddol yn cynnig cyfle i rai o fyfyrwyr yr ail flwyddyn dreulio cyfnod ar brofiad gwaith naill ai yn Senedd Cymru, Caerdydd neu yn Senedd San Steffan yn Llundain. Dyma gyfle gwych i gael blas ar waith dydd-i-ddydd ein sefydliadau democrataidd.**

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly mae rhaid gwneud cais a mynychu cyfweliad yn yr adran. Y myfyrwyr llwyddiannus yw'r rhai sydd wedi dangos diddordeb brwd mewn gwleidyddiaeth yn ystod eu hastudiaethau, sy'n gallu gweithio'n ddiwyd ac yn drefnus o dan bwysau, sydd â sgiliau rhyngbersonol da ac sy'n gallu addasu yn gyflym i weithio mewn amgylchedd heriol.

Caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu gosod gydag Aelod Senedd Cymru (Senedd Cymru, Caerdydd) neu Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) am gyfnod o 4-6 wythnos dros gyfnod gwyliau'r haf fel arfer. Gall y gwaith gynnwys drafftio adroddiadau, areithiau a datganiadau i'r wasg, gweithio gyda phwyllgorau seneddol, ymgymryd â phrosiectau ymchwil neu helpu gyda gwaith etholaethol. O dro i dro ceir hefyd gyfle i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd etholiadol ac ymateb i amryw o ddigwyddiadau gwleidyddol pwysig. Gellir derbyn cyllid gan yr Adran i helpu gyda'r costau.



Senedd Cymru



# Efelychiadau gemau argyfwng

Yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol oedd yr adran brifysgol gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddefnyddio efelychiadau argyfwng fel dull o gysylltu'r gwaith dysgu ffurfiol yn y dosbarth â chymhlethdodau gwleidyddiaeth ryngwladol y byd go iawn. Mae'r efelychiadau argyfwng yn cael eu cynnal unwaith y flwyddyn yng Ngregynog, ger y Drenewydd, sef cyn gartref teuluol yr Arglwydd Davies o Landinam, sylfaenydd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Ymarfer chwarae rôl yw gêm argyfwng. Mae'r myfyrwyr yn wynebu 'senario' argyfwng ac yn cael eu rhoi mewn tîm - un o nifer o dimau sy'n cynrychioli'r canlynol: arweinwyr cenedlaethol, adrannau llywodraeth, corfforaethau amlwladol, cyrff anllywodraethol, sefydliadau rhyngwladol, grwpiau parafilwrol a sefydliadau yn y cyfryngau. Mae'r timau hyn yn efelychu, mewn modd mor realistig ag y bo modd, yr ymwneud rhwng actorion fel hyn mewn argyfwng rhyngwladol. Nod yr ymarfer yw cynnig blas o gymhlethdodau gwleidyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol a gwell gwerthfawrogiad o'r anawsterau sy'n wynebu pobl sy'n gorfod gwneud penderfyniadau gwleidyddol anodd yn ystod cyfnod o argyfwng rhyngwladol.

Mae'r gemau argyfwng ymhlith gweithgareddau mwyaf poblogaidd yr Adran. Yn ystod yr efelychiad mae'r myfyrwyr yn dysgu am agweddau ar wleidyddiaeth ryngwladol nad oes modd eu haddysgu mewn darlithoedd a seminarau, ac yn magu ystod o sgiliau anacademaidd pwysig. Maent yn cynnig golwg fwy uniongyrchol ar brosesau penderfynu o dan bwysau mewn argyfwng. Yn olaf, mae'r gemau argyfwng yn eich helpu i ddatblygu a gwella sgiliau gyrfa megis rheoli prosiectau, diplomyddiaeth a negodi; adeiladu tîm ac arweinyddiaeth; rheoli gwybodaeth; datrys problemau; siarad cyhoeddus; cyflwyno; sgiliau cyfathrebu a sgiliau cyfryngau.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gemau wedi ymdrin â sefyllfaoedd megis argyfwng arfau niwclear Gogledd Corea, rhyfel sifil Syria, etholiadau Arlywyddol yr Unol Daleithiau, proses heddwch Gogledd Iwerddon, y rhyfel rhwng Rwsia a Georgia, cyrchoedd NATO yn Affganistan, gwleidyddiaeth amgylcheddol yr Arctig, a phenderfyniad y Deyrnas Unedig i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.







# Cymdeithasau myfyrwyr

Mae'r **Gymdeithas Gwleidyddiaeth Ryngwladol** yn trefnu ystod eang o weithgareddau cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn materion tramor a domestig. Mae'n agored i holl fyfyrwyr yr adran, ond hefyd i unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth.

Mae'r cyfnodolyn materion rhyngwladol **Interstate** yn gyfnodolyn academaidd sydd dan ofal myfyrwyr israddedig yr Adran. Mae'n rhoi sylw i faterion gwleidyddol cyfoes, ac mae'n ceisio rhoi cyfle i fyfyrwyr drafod, dadansoddi a chynnig sylwadau ar faterion byd-eang ochr yn ochr â chyfraniadau gan academyddion ac ymarferwyr blaenllaw. Bellach, mae Interstate yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn ar-lein ac mewn print.

Amcan **Cymdeithas Gemau Argyfwng a Chenhedloedd Unedig Aberystwyth** yw trefnu efelychiadau gwleidyddol er mwyn magu dealltwriaeth o natur argyfyngau rhyngwladol a'r modd y mae systemau'r Cenhedloedd Unedig yn gweithio. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr drafod materion byd-eang cyfoes yn yr un modd ag a fydd yn digwydd yn y Cenhedloedd Unedig neu mewn fforymau rhyngwladol eraill. Bydd aelodau'r gymdeithas yn cymryd rhan hefyd mewn efelychiadau Cenhedloedd Unedig blynyddol a gallant wneud cais i fynd ar deithiau astudio.



# Profiadau cyn-fyfyrwyr



## Aled Scourfield

**Newyddiadurwr gyda BBC Cymru**

'Fy nghyfnod yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol wnaeth danio fy niddordeb mewn Newyddiaduraeth a Materion Cyfoes.'



## Miriam Williams

**Swyddog Marchnata a Rhaglennu Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

'Mae gwleidyddiaeth yn bwnc mor eang, mae bron pob swydd yn cyffwrdd ag elfen ohono, ac mae'n radd sydd yn sicr yn werthfawr i unrhyw un, beth bynnag fo'ch gyrfa ddelfrydol.'



## Gwyn Loader

**Gohebydd a chynhyrchydd teledu gyda ITV Cymru**

'Roedd y cwrs yn cynnig nifer o fodiwlau a oedd o ddiddordeb mawr i mi. Roedd y cyfle i astudio nifer o fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg - a byw drwy gyfrwng yr iaith tra'n astudio - hefyd yn atyniad mawr.'



# Cyfleoedd byd-eang

**Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig ystod gyffrous o opsiynau i chi fynd dramor yn rhan o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd gwirfoddoli yn yr haf, i semester lawn neu flwyddyn dramor yn astudio mewn prifysgol sy'n un o'n partneriaid.**

Os byddwch yn dewis astudio gyda blwyddyn integredig dramor, mae'r Brifysgol yn eich galluogi i astudio am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd flwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn olaf ac i raddio.

Dengys adroddiadau bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o arian na'u cyfoedion. Beth felly am fanteisio ar gyfle anhygoel a gwella eich sgiliau holl bwysig ar yr un pryd trwy ddewis astudio dramor?





















# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 31 Ionawr. Côd sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**GAIR I GALL:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**GAIR I GALL:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!




Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol,
Prifysgol Aberystwyth,
Penglais,
Aberystwyth,
SY23 3FE Cymru

+44 (0)1970 62 1537
gwleidyddiaeth@aber.ac.uk
/InterpolAber
/interpolaber
/interpolaber
@InterpolAber
InterPolAber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2023.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%